# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 2

SWYDDOGAETHAU CYFFREDINOL

*Trefniadau lleol*

### 16 Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector

(1) Rhaid i awdurdod lleol hyrwyddo—

(a) datblygiad mentrau cymdeithasol yn ei ardal i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol;

(b) datblygiad sefydliadau cydweithredol neu drefniadau cydweithredol yn ei ardal i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol;

(c) ymglymiad personau y mae gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol i'w darparu ar eu cyfer yn y broses o ddylunio a gweithredu'r ddarpariaeth honno;

(d) argaeledd gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol yn ei ardal gan sefydliadau trydydd sector (p'un a yw'r sefydliadau yn fentrau cymdeithasol neu'n sefydliadau cydweithredol ai peidio).

(2) Yn yr adran hon—

mae "gofal a chymorth" ("*care and support*") yn cynnwys cymorth i ofalwyr;

ystyr "gwasanaethau ataliol" ("*preventative services*") yw gwasanaethau y mae'r awdurdod lleol o'r farn y byddent yn sicrhau unrhyw un neu rai o'r dibenion yn adran 15(2);

mae "y gymdeithas" ("*society*") yn cynnwys adran o'r gymdeithas;

ystyr "menter gymdeithasol" ("*social enterprise*") yw sefydliad y mae ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn rhai y gallai person farnu'n

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

rhesymol eu bod yn weithgareddau a gyflawnir er budd y gymdeithas ("ei amcanion cymdeithasol"), ac sydd—

(a) yn creu'r rhan fwyaf o'i incwm drwy fusnes neu fasnach,

(b) yn ailfuddsoddi'r rhan fwyaf o'i elw yn ei amcanion cymdeithasol,

(c) yn annibynnol ar unrhyw awdurdod cyhoeddus, a

(d) yn cael ei berchenogi, ei lywio a'i reoli mewn ffordd sy'n gyson â'i amcanion cymdeithasol;

ystyr "sefydliad trydydd sector" ("*third sector organisation*") yw sefydliad y gallai person farnu'n rhesymol ei fod yn sefydliad sy'n bodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddarparu buddion i'r gymdeithas.

(3) At ddibenion yr adran hon, caiff rheoliadau ddarparu—

(a) bod gweithgareddau o ddisgrifiad penodedig i'w trin neu ddim i'w trin fel gweithgareddau y gallai person farnu'n rhesymol eu bod yn weithgareddau sy'n cael eu cyflawni er budd y gymdeithas;

(b) bod sefydliadau neu drefniadau o ddisgrifiad penodedig i'w trin neu ddim i'w trin fel—

(i) mentrau cymdeithasol,

(ii) sefydliadau cydweithredol neu drefniadau cydweithredol, neu

(iii) sefydliadau trydydd sector;

(c) ar gyfer yr hyn sydd, neu'r hyn nad yw, neu a gaiff fod, yn gyfystyr ag adran o'r gymdeithas.